nodiadau'r athrawon


# Ffeithiau am wenyn

**Paratoi**

- Llungopïwch y daflen weithgaredd *Ffeithiau am wenyn 1 a 2* ar gyfer pob grŵp, gan ddefnyddio papur o liw gwahanol i bob grŵp.
- Torrwch allan y ffeithiau siâp petalau o *Ffeithiau am wenyn 2* ar gyfer pob grŵp a'u cuddio yma ac acw yn y buarth. Efallai yr hoffech eu lamineiddio'n gyntaf i'w diogelu.

**Y gweithgaredd**

- Rhowch enw lliw i bob grŵp a rhowch y blodyn sy'n cyfateb iddynt ar *Ffeithiau am wenyn 1*.
- Eglurwch eu bod yn mynd i fod yn wenyn ac yn mynd i edrych am betalau blodau er mwyn cwblhau eu blodau. Rhaid iddynt chwilio am betalau o'r lliw cywir yn unig er mwyn cwblhau eu blodyn a dim ond un petal y cânt ei gasglu ar y tro.
- Eglurwch gan mai gwenyn ydynt yn awr, mai dim ond trwy **sigl-ddawnsio** y gallant gyfathrebu â'i gilydd yn eu grwpiau (gweler *Taflen ffeithiau am wenyn* - nodiadau'r athrawon) er mwyn dweud wrth ei gilydd lle gallai rhai o'u petalau fod. (Gallai'r plant sigl-ddawnsio trwy droelli pan fyddant yn agos iawn i betal, gan chwifio eu 'hadenydd').
- Ar ôl iddynt gael hyd i'r petalau i gyd, gallant ofyn i oedolyn eu helpu i ddarllen rhai o'r ffeithiau am wenyn.
- Gofynnwch i'r plant pa mor anodd oedd cyfathrebu trwy sigl-ddawnsio yn unig. Rhaid bod gwenyn yn glyfar iawn i allu gwneud hyn!
- Awgrymwch fod y plant yn aros i wylio'r wenynen nesaf a welant i weld beth mae hi'n ei wneud - efallai y gwelant hi'n sigl-ddawnsio!



LLUNIAU: STUART TROTTER